**EITEM AR YR AGENDA: 14**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mehefin 2006**

**DIWYG ADRODDIADAU PWYLLGOR**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Rhoi gwybod i'r aelodau am ddiwyg newydd ar gyfer adroddiadau a gyflwynir i'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau.

**Cyflwyniad**

**2.** Yn ddiweddar cynhaliwyd adolygiad o'r diwyg ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau gyda'r bwriad o fabwysiadu diwyg corfforaethol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gyfer pwyllgorau, i ddechrau ym mlwyddyn ddinesig newydd yr Awdurdod ym Mehefin 2006.

**3.** Y ogystal ag adolygu'r diwyg ar gyfer cyflwyno adroddiadau, rhoddwyd ystyriaeth i fabwysiadu gwahanol liwiau ar gyfer eu hargraffu. Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn gymorth i'r aelodau wahaniaethu rhwng adroddiadau a gyflwynir er gwybodaeth, ac adroddiadau sy'n gofyn penderfyniad.

## Cefndir

4. Fel rhan o'r adolygiad, cafwyd copïau o adroddiadau nifer o'r awdurdodau cyfansoddol ac awdurdodau tân ac achub eraill at ddiben cymharu arddull a diwyg.

5. Hefyd, gofynnwyd am gyngor Ymgynghorydd Cydraddoldebau'r Gwasanaeth ar y mathau o ffontiau a meintiau sy'n cael eu hargymell gan sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau anabledd ac o ran cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

## Gwybodaeth

6. Roedd yr ymchwil a wnaed yn dangos bod y rhan fwyaf o'r awdurdodau cyfansoddol ac awdurdodau tân ac achub eraill yn tueddu i ddefnyddio diwyg tebyg ar gyfer cyflwyno eu hadroddiadau.

7. Yn ogystal ag adroddiadau gydag enw'r awdur ar frig yr adroddiad, roedd hefyd yn amlwg fod defnyddio'r penawdau safonol canlynol yn beth cyffredin mewn awdurdodau:
   - Teitl yr Adroddiad
   - Diben yr Adroddiad neu'r Penderfyniad a Geisir
   - Cefndir; a chloi gydag
   - Argymhelliad/Argymhellion

8. Mae nifer o awdurdodau'n cynnwys is-benawdau ar y pynciau canlynol yng nghorff yr adroddiad: "Y Goblygiadau o ran Cost", "Yr Ymgynghori a wnaed" a'r "Goblygiadau ar Feysydd Polisi eraill".

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**9.** Roedd y cyngor a gafwyd gan Ymgynghorydd Cydraddoldebau'r Gwasanaeth ynghylch sicrhau bod papurau'r pwyllgorau'n hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg yn dweud bod Sefydliad y Deillion yr RNIB yn argymell i sefydliadau ddefnyddio ffont mwy (maint 14 o leiaf) mewn teip heb seriffau (*sans serif*) ar gyfer gwybodaeth brintiedig gan fod hwn, yn ôl yr hyn a ddywedant hwy, yn fwy darllenadwy i bobl sydd a nam ar eu golwg.

**10.** Byddai trefn o gyhoeddi mathau gwahanol o adroddiadau ar bapur mewn lliwiau gwahanol yn gymorth i'r aelodau ei chael yn haws adnabod adroddiadau sy'n dod o fewn gwahanol gategorïau. Wrth ystyried y drefn hon, a gyda'r bwriad o fabwysiadu ffordd gyson ym mhob awdurdod, holwyd yr awdurdodau cyfansoddol i weld a oedd lliw cyffredin yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwahanol gategorïau o adroddiadau Yn anffodus, mae gan bob cyngor ei drefn ei hun ar gyfer diffinio adroddiadau sy'n gofyn gwahanol benderfyniadau.

**Y Goblygiadau Ariannol**

**11.** Bydd cyhoeddi adroddiadau pwyllgorau ar bapur lliw a defnyddio maint 14 yn golygu goblygiadau ariannol bychain i'r Awdurdod. Y disgwyl yw y bydd cost cyhoeddi papurau'r pwyllgorau, ar gyfartaledd, yn cynyddu tua £30 i £40 ar gyfer pob pwyllgor. Bydd y cynnydd hwn yn dod o fewn y gyllideb bresennol ar gyfer y gwasanaethau pwyllgorau.

## Casgliadau

**12.** Wedi ystyried yr wybodaeth uchod, y bwriad yw cyflwyno’r holl adroddiadau pwyllgorau yn y dyfodol mewn diwyg rhagosodedig, a fydd yn cynnwys, fel rheol, enw’r Awdur, teitl yr adroddiad, y pennawd “Diben yr Adroddiad/Y Penderfyniad a Geisir” ac yna “Cefndir” i ddilyn”.

**13.** Bydd pob is-bennawd a fydd yn dilyn y paragraffau uchod yn cael eu cynnwys yn ôl dewis yr awdur wedi iddo ystyried goblygiadau cynnwys yr adroddiad ar y meysydd polisi/ymgynghoriad canlynol:

- Cyfle Cyfartal
- Adnoddau Dynol
- Iechyd a Diogelwch
- Hawliau Dynol
- Ariannol
- Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth
- Amgylcheddol
- Potensial Cydweithredu/Gweithio mewn Partneriaeth sy’n cyd-fynd â “Creu’r Cysylltiadau
- Cyrff Cynrychioliadol
- Cynllun Lleihau Risg/Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella
- Strategaethau eraill gan Lywodraeth y Cynulliad neu Lywodraeth Prydain ar adeg llunio’r adroddiad e.e. Cynllun Gofodol Cymru, polisïau ar Wrthsefyll
- Y Gymraeg

**14.** Ac y dylai pob adroddiad gloi gyda pharagraff ar “Argymhelliad / Argymhellion.

**Casgliadau** *(parhad)*

**15.** Gan nad oes un polisi unffurf yn yr awdurdodau cyfansoddol ar ddefnyddio papur lliw, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub felly'n cyhoeddi adroddiadau pwyllgorau ar bapur melyn lle mae gofyn am benderfyniad, ac adroddiadau er gwybodaeth yn cael eu cyhoedd ar bapur pinc. Bydd adroddiadau Rhan II neu adroddiadau cyfrinachol yn cael eu cyhoeddi ar bapur gwyrdd golau.

**16.** Er mwyn cadw'r costau mor isel ag y bo modd, bydd y cofnodion, yr agendâu, a dogfennau drafft a gyflwynir fel atodiadau i'r prif adroddiadau, yn parhau i gael eu cyhoeddi ar bapur gwyn.

**Argymhelliad**

**17.** Bod yr aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarperir ar ddiwyg yr adroddiadau ar gyfer pwyllgorau yn y dyfodol.